# EIRIOLWR YMWELD A PHRESWYLFA - RÔL ACHLYSUROL

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan nifer o gyllidwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.

tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Eiriolaeth

**Yn atebol i:** Arweinydd Datblygu Eiriolaeth Ymweliadau Preswyl

**Lleoliad:** Gogledd-ddwyrain Cymru a Gogledd Powys (Ymweld â chartrefi preswyl yng Ngogledd Powys, Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy a Dwyrain Gwynedd

**Diben y swydd:**
I ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth annibynnol ac eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i ddefnyddio'r gwasanaeth.

**Atebolrwydd / Cyfrifoldebau**

- Siarad ar ran plant a phobl ifanc a phan fo'n bosibl eu galluogi nhw i siarad dros eu hunain
- Helpu plant a phobl ifanc i ddeall a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau; a chynrychioli eu barnau, dymuniadau a'u hanghenion i wneuthurwyr penderfyniadau - a chwilio am ddatrysiadau i doriadau hawliau dynol
- Mynd gyda phlant a phobl ifanc i fforymau gwneud penderfyniadau a sicrhau bod eu barnau yn cael eu cynrychioli - gan gynnwys trafod gyda gweithwyr cymdeithasol, uwch reolwyr, gofalwyr maeth, cyfreithwyr a gweithwyr proffesiynol eraill ar ran plentyn / person ifanc
- Helpu pobl ifanc i archwilio dewisiadau, deall eu hawliau a gwneud cwynion
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r gwasanaeth o gymharu â'r fframwaith o ganlyniadau a gytunwyd arnyn nhw drwy fonitro gweithgareddau a chasglu gwybodaeth addas gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hybu cyfleodd cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol drwy'r gwaith fydd yn cael ei wneud fel rhan o'r swydd
- Rhwydweithio'n briodol gyda chyd-weithwyr a'r gymuned, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n ofynnol ac yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â'r radd.

**Cyfrifoldebau eraill**
Dim

**Cyfrifoldeb rheoli llinell (o 14/05/2026)**
0

**Cyfrifoldeb rheoli'r gyllideb (o 14/05/2026)**
£0

**Gradd**
Graddfa 2

**Amodau gwaith**
Cytundeb Achlysurol gydag ymagwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith fydd yn cynnwys gwaith ar benwythnosau a gyda'r nos ac ar adegau aros i ffwrdd dros nos er mwyn mynd i gyfarfodydd, cynadleddau neu i gael hyfforddiant.

Bydd hefyd yn ofynnol ichi deithio i leoliadau amrywiol ar draws Cymru a'r DU.

**Cymwysterau**

- Cymhwysedd proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth berthnasol megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cynhyrchu canlyniadau o safon mewn modd amserol ac sy'n canolbwyntio ar wasanaeth ac yn ymrwymedig i gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt
- Gweithio'n dda gyda chyd-weithwyr a phartneriaid a chydnabod syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd eraill
- Cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol
- Cyfathrebu'n effeithiol e.e. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrando'n astud a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn bositif i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a chofnod o gyflawni yn y canlynol:

- Eiriolaeth
- Hawliau plant
- Gweithio mewn partneriaeth â phlant / pobl ifanc
- Gweithio gyda phlant / pobl ifanc i nodi sut a gan bwy yr hoffent gael eu cynrychioli
- Diogelu

**Arall**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru ar bob adeg a'u hybu mewn eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a bod â cherbyd gennych chi (*Mewn rhai achosion bydd ymgeiswyr sy'n methu â gyrru o ganlyniad i anabledd yn cael eu hystyried ar gyfer y swydd.)*
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)